Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
89/2024
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/12/2024

# Cynllun Peilot Arolwg Preswylwyr: Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83715-018-2**

Cynllun Peilot Arolwg Preswylwyr: Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg

Awdur: Phil Nelson

Adroddiad Ymchwil Llawn: Phil Nelson (10/12/2024). *Cynllun Peilot Arolwg Preswylwyr: Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 89/2024.>
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-peilot-arolwg-preswylwyr-gwynedd-sir-benfro-a-bro-morgannwg

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Enw: Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Is-adran: Croeso Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: N/A
E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

## Cynnwys


- Crynodeb Gweithredol .... 4
- Sail resymegol .... 6
- Dull .... 7
    - Dadansoddiad demograffig .... 7
    - Maint y sampl .... 7
    - Yr Holiadur .... 9
    - Cyfyngiadau .... 9
    - Manteision yr ymchwil hon .... 9

Crynodeb o’r canfyddiadau .... 11
- Gwynedd .... 11
- Sir Benfro .... 20
- Bro Morgannwg .... 26

Cymariaethau .... 35

Tabl 1. Tabl i ddangos y cwestiynau ychwanegol yr oedd pob ardal beilot wedi gofyn amdanynt ........................................................................................................4
Tabl 2. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr yn ôl Rhywedd ar gyfer pob ardal beilot ..........8
Tabl 3. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr yn ôl oed ar gyfer pob ardal beilot ...................8
Tabl 4. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr sy’n gweithio yn y diwydiant Twristiaeth ar gyfer pob ardal beilot.........................................................................................8

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol yng Ngwynedd ................ 11
Ffigur 2. Agweddau ymatebwyr tuag at Dwristiaeth yng Ngwynedd .................................. 12
Ffigur 3. Siart i ddangos effaith dybiedig lletyau gosod tymor byr yng Ngwynedd .............. 13
Ffigur 4. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yng Ngwynedd ......... 14
Ffigur 5. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau yng Ngwynedd ...... 15
Ffigur 6. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar y Gymraeg yng Ngwynedd ............ 16
Ffigur 7. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion yng Ngwynedd ........ 17
Ffigur 8. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr yng Ngwynedd eisiau gweld mwy, llai neu'r un nifer ohonynt ........ 18
Ffigur 9. Siart i ddangos effaith dybiedig digwyddiadau yng Ngwynedd ............................ 19
Ffigur 10. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol yn Sir Benfro ................. 20
Ffigur 11. Agweddau ymatebwyr yn Sir Benfro tuag at Dwristiaeth yn eu hardal ................ 21
Ffigur 12. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yn Sir Benfro .......... 22
Ffigur 13. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau yn Sir Benfro ....... 23
Ffigur 14. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion yn Sir Benfro ........ 24
Ffigur 15. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr am weld mwy, llai neu'r un nifer ohonynt yn Sir Benfro ........ 25
Ffigur 16. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol ym Mro Morgannwg ....... 26
Ffigur 17. Agweddau ymatebwyr o Fro Morgannwg tuag at Dwristiaeth yn eu hardal ......... 27
Ffigur 18. Siart i ddangos effaith lletyau gosod tymor byr ym Mro Morgannwg .................... 28
Ffigur 19. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yn Sir Benfro .......... 29
Ffigur 20. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau ym Mro Morgannwg ........ 30
Ffigur 21. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar y Gymraeg ym Mro Morgannwg.... 31
Ffigur 22. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion ym Mro Morgannwg ........ 32
Ffigur 23. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr am weld mwy, llai neu'r un nifer ohonynt ym Mro Morgannwg ........ 33
Ffigur 24. Siart i ddangos effaith dybiedig digwyddiadau ym Mro Morgannwg .................... 34

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o Arolwg Preswylwyr Cymru a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg, Sir Benfro a Gwynedd, sef cynllun peilot i helpu i wella'r profiad o ran yr economi ymwelwyr drwy fonitro a dadansoddi agweddau preswylwyr tuag at Dwristiaeth. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal fel rhan o'r blaenoriaethau yn Croeso i Gymru.

Er mwyn datblygu'r arolwg, defnyddiwyd Model Mynegai Teimladau Preswylwyr TRAVELSAT (RSI) perchnogol TCI Research sy'n caniatáu i ni fesur agweddau preswylwyr tuag at Dwristiaeth a'u cefnogaeth i'r maes ar draws 30 categori.

Rhoddwyd cyfle i bob ardal beilot ychwanegu hyd at bum cwestiwn ei hun at y model presennol, yn ogystal ag ychwanegu eitemau at y cwestiynau oedd eisoes wedi'u cynnwys ynddo. Gallwch weld y cwestiynau hyn yn y tabl isod:

### Tabl 1. Tabl i ddangos y cwestiynau ychwanegol yr oedd pob ardal beilot wedi gofyn amdanynt

| Bro Morgannwg | Gwynedd | Sir Benfro |
|---|---|---|
| • A oedd Twristiaeth yn cael effaith gadarnhaol neu effaith negyddol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd perthnasol yr ymatebwyr;<br>• A fyddai ymatebwyr yn hoffi gweld mwy o ymwelwyr, yr un nifer o ymwelwyr, neu lai o ymwelwyr dros nos, yn ogystal ag ymwelwyr dydd yn y dyfodol;<br>• Beth oedd canlyniadau tybiedig llety gosod tymor byr yn ardaloedd yr ymatebwyr;<br>• Beth oedd canlyniadau tybiedig digwyddiadau yn ardaloedd yr ymatebwyr;<br>• I ba raddau y tybiwyd fod y Gymraeg wedi cael ei niweidio oherwydd nifer o ffactorau | • A oedd Twristiaeth yn cael effaith gadarnhaol neu effaith negyddol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn ardaloedd perthnasol yr ymatebwyr;<br>• A fyddai ymatebwyr yn hoffi gweld mwy o ymwelwyr, yr un nifer o ymwelwyr, neu lai o ymwelwyr dros nos, yn ogystal ag ymwelwyr dydd yn y dyfodol;<br>• Beth oedd canlyniadau tybiedig llety gosod tymor byr yn ardaloedd yr ymatebwyr;<br>• Beth oedd canlyniadau tybiedig digwyddiadau yn ardaloedd yr ymatebwyr; | • Dim cwestiynau wedi'u dewis |

## Canfyddiadau allweddol

### Agweddau at dwristiaeth

- O'r tair ardal beilot, yr ymatebwyr o Sir Benfro oedd yr unig rai i roi sgôr oedd yn dangos canfyddiad cadarnhaol net o dwristiaeth (56%) o'i gymharu â Gwynedd (46%) a Bro Morgannwg (45%)
- O ran teimladau negyddol tuag at Dwristiaeth, ymatebwyr o Wynedd oedd wedi rhoi'r sgôr uchaf, sef 14% gyda Sir Benfro yn rhoi sgôr o 9% a Bro Morgannwg yn rhoi sgôr o 8%.
- Gwelwyd sgôr gadarnhaol net yn y tair ardal o ran eu dymuniad i weld Twristiaeth yn tyfu (Bro Morgannwg, 63%; Gwynedd, 57%; Sir Benfro 56%). Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod ymatebwyr o Wynedd a Sir Benfro yn fwy tebygol o fod yn gweithio ym maes Twristiaeth (sef tua 40% o'r ymatebwyr o'r ddwy ardal hon, o'i gymharu â dim ond 12% ym Mro Morgannwg)

### Agweddau'r ymatebwyr

- Mae ymdeimlad cryf o falchder yn y tair ardal (Gwynedd, 88%; Sir Benfro, 84%; a Bro Morgannwg, 83%).
- Mae ymatebwyr o Wynedd yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch datblygu Llety Gosod Tymor Byr (53%) tra bo Sir Benfro (42%) a Bro Morgannwg (45%), at ei gilydd, yn fwy negyddol am hyn.

### Llety gosod tymor byr

- Roedd ymatebwyr o Wynedd yn fwy tebygol o dynnu sylw at gynnydd mewn ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i fwy o Letyau Gosod Tymor Byr (52%) ond ym Mro Morgannwg, tynnwyd sylw at y cynnydd mewn prisiau tai (40%).
- Dewisodd Sir Benfro beidio â gofyn unrhyw gwestiynau pellach ynghylch Lletyau Gosod Tymor Byr.

### Awgrymiadau

- Awgrymodd ymatebwyr o'r tair ardal beilot fwy o ymgysylltu o ran datblygu polisi Twristiaeth (Gwynedd, 37%; Bro Morgannwg, 35%; Sir Benfro, 27%).
- Roedd gwelliannau yn y ddarpariaeth o seilwaith lleol hefyd yn amlwg iawn ar draws pob ardal (Gwynedd, 23%; Sir Benfro, 24%; Bro Morgannwg, 48%).
- Mae'n bwysig nodi bod yr atebion hyn yn ddigymell, sy'n awgrymu bod lefel y teimladau yn hyn o beth ymysg yr ymatebwyr yn uchel.

### Effaith twristiaeth

- Roedd yr economi leol ar y brig ar draws y tair ardal fel elfen yr oedd Twristiaeth wedi cael dylanwad gadarnhaol arni (Gwynedd, 82%; Sir Benfro, 86%; Bro Morgannwg, 74%)
- Roedd cyflogaeth hefyd yn cael sylw (Gwynedd, 76%; Sir Benfro, 77%; Bro Morgannwg, 62%). Nodwyd glendid mannau cyhoeddus fel effaith negyddol amlwg ar draws y tair ardal (Gwynedd, 38%; Sir Benfro, 40%; Bro Morgannwg, 48%)

### Y gymraeg

- Mae ymatebwyr o Wynedd (70%) a Bro Morgannwg (56%) yn credu bod Twristiaeth yn gyfrwng da o ran hyrwyddo'r Gymraeg.

- Dewisodd Sir Benfro beidio â gofyn am yr effaith ar y Gymraeg

### Canlyniadau twristiaeth

- Problemau'n ymwneud â Pharcio a Thraffig sy'n cael eu nodi fwyaf gan ymatebwyr (Gwynedd, 77% a 76% yn y drefn honno; Sir Benfro, 84% ac 83% yn y drefn honno; a Bro Morgannwg, 84% ac 84% yn y drefn honno).

### Is-grwpiau ymwelwyr

- Ar draws y tair ardal beilot (Gwynedd, 75%; Sir Benfro, 65%; Bro Morgannwg 85%), twf mewn ymwelwyr Rhyngwladol oedd yn cael blaenoriaeth.

### Digwyddiadau

- Mae ymatebwyr o Wynedd (61%) a Bro Morgannwg (51%) yn cysylltu twf Twristiaeth â chynnal digwyddiadau yn yr ardal leol.
- Mae ymatebwyr o Wynedd (18%) a Bro Morgannwg (39%) hefyd yn tynnu sylw at ddifrod i seilwaith lleol o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn. Mae ymatebwyr o'r ddwy ardal (Gwynedd, 18%; Bro Morgannwg, 23%) hefyd yn credu (ar lefelau ychydig yn is) bod digwyddiadau'n dod â gormod o bobl ar yr un pryd.

## Sail resymegol

Mae'r prosiect peilot sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn yn deillio o'r strategaeth Croeso i Gymru[1] lle mae Croeso Cymru yn ymrwymo i fonitro canfyddiadau preswylwyr yng Nghymru:

> *Mae hyn yn golygu bod angen i ni sicrhau bod pobl leol yn cael budd o economi ymwelwyr sy'n ffynnu, a'u bod yn gyfforddus â hynny. Mae angen i ni ddysgu mwy ynghylch barn pobl yng Nghymru am dwristiaeth. Byddwn yn gwrando ar leisiau trigolion, ynghyd â'r gwaith rydym eisoes yn ei wneud gyda'r sector drwy ein baromedr busnes a'n harolygon boddhad ymwelwyr rheolaidd. Rydym am gael safbwynt mwy cyflawn o dwf twristiaeth – ei effeithiau cadarnhaol, a'i feysydd o bryder yn y dyfodol.*

*Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i'r Economi Ymwelwyr 2020 – 2025, tudalen 38*

Er mwyn cyflawni'r dyhead hwn, yn 2023 cysylltodd Croeso Cymru ag Awdurdodau Lleol i weld a fyddai gan unrhyw ardaloedd ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect peilot sy'n ceisio mesur teimladau preswylwyr tuag at Dwristiaeth. Gan mai prosiect peilot oedd hwn, roedd Croeso Cymru wedi cyfyngu ar gwmpas yr arolwg i gynnwys uchafswm o dri Awdurdod Lleol yn unig ar sail y datganiadau o ddiddordeb.

Dewiswyd Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg fel awdurdodau lleol oedd yn cynrychioli'r gwahanol gynnyrch Twristiaeth sydd ar gael yng Nghymru ac ymgynghorwyd â nhw drwy gydol y broses ynghylch fformat, amseriad a dadansoddiad yr arolwg.

---

[11] Croeso i Gymru: : blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025

Mae Croeso Cymru yn ystyried hwn yn brosiect peilot, ac mae wedi'i gynnal gyda golwg ar ddysgu a gwella. Felly, mae'n bwysig ystyried cyfyngiadau'r ymchwil hon ac i nodi'r cafeatau wrth gyfeirio at y canfyddiadau hyn.

## Ymchwil yn y dyfodol

Gan adeiladu ar y rheidrwydd strategol i fonitro ac i ymateb i ganfyddiadau'r gymuned o Dwristiaeth yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried y prosiect ymchwil peilot hwn yn gam cyntaf tuag at y nod hwn. Mae'r canlyniadau'n rhoi cipolwg ar ba ddata y gallai Croeso Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel Awdurdodau Lleol, Parciau Cenedlaethol a grwpiau eraill sydd â diddordeb, fod yn eu casglu yng Nghymru i greu gwybodaeth ddefnyddiol y gellir gweithredu arni. Darperir yr adroddiad hwn i bartïon sydd â diddordeb ddysgu oddi wrtho, fel y mae Cyngor Gwynedd yn ei wneud ar hyn o bryd gyda'i arolwg ei hun.

## Dull

### Dadansoddiad demograffig

Ar gyfer pob ardal, rhannwyd yr ymatebwyr yn ôl oedran a rhyw, ac a oeddent yn ymatebwyr oedd yn bwy yn yr ardal amser llawn (er mwyn eithrio perchnogion ail dai a thwristiaid). Roedd Gwynedd wedi dewis eu diffinio hefyd yn ôl y rhai sy'n byw yn ardal Gwynedd a'r rhai sydd hefyd yn byw yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

### Maint y sampl

Casglwyd y samplau canlynol ym mhob ardal:

- Gwynedd – 740 o ymatebwyr
- Bro Morgannwg – 410 o ymatebwyr
- Sir Benfro – 459 o ymatebwyr

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Medi a mis Hydref 2023 ac fe'i hyrwyddwyd drwy sianeli recriwtio lleol. Felly, sampl hunanddewis yw hwn. Cafwyd dosbarthiad cymharol gyfartal o ran rhywedd, ond nid oedd ffactorau daearyddol a demograffig yn cael eu rheoli ac efallai eu bod wedi gogwyddo'r canlyniadau. Yn seiliedig ar y data demograffig a gasglwyd, defnyddiwyd pwysoliad yn unol â'r data poblogaeth sefydlog sydd ar gael.

Nodyn ar faint y sylfaen ar gyfer pob cwestiwn; cafodd ymatebion rhannol eu heithrio, felly mae maint y sylfaen ar gyfer pob cwestiwn yr un fath â chyfanswm yr ymatebion a gasglwyd ar gyfer yr Awdurdod Lleol hwnnw, ac eithrio'r cwestiwn sy'n ymwneud â chanlyniadau negyddol. Dim ond yr ymatebwyr hynny a nododd ganfyddiadau o effaith negyddol oedd yn

gallu rhoi atebion i'r cwestiwn hwn, felly ar gyfer y cwestiwn hwn mae union faint y sylfaen wedi'i nodi ar y siart.

Mae'r tablau canlynol yn dangos dadansoddiad o bob un o'r ardaloedd yn ôl y gwahanol elfennau demograffig a fesurwyd

## Tabl 2. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr yn ôl Rhywedd ar gyfer pob ardal beilot

| | Gwryw | Benyw | Anneuaidd / Ddim yn cydymffurfio o ran rhywedd | Mae'n well gen i beidio â dweud |
|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 42% | 51% | 2% | 5% |
| **Bro Morgannwg** | 44% | 52% | 1% | 3% |
| **Sir Benfro** | 47% | 52% | 0% | 1% |

## Tabl 3. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr yn ôl oed ar gyfer pob ardal beilot

| | 16-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65-74 | 75+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 2% | 10% | 30% | 35% | 15% | 8% |
| **Bro Morgannwg** | 3% | 12% | 22% | 32% | 20% | 11% |
| **Sir Benfro** | 6% | 12% | 27% | 32% | 15% | 8% |

## Tabl 4. Tabl i ddangos canran yr ymatebwyr sy'n gweithio yn y diwydiant Twristiaeth ar gyfer pob ardal beilot

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| **Gwynedd** | 41% | 59% |
| **Bro Morgannwg** | 12% | 88% |
| **Sir Benfro** | 44% | 56% |

Mae'r ddemograffeg yn dangos rhaniad cymharol gyfartal o ran rhywedd ar draws pob lleoliad a thuedd cyffredinol tuag at y grŵp oedran 50 – 64 gyda'r mwyafrif o'r ymatebion yn digwydd yn yr ystod gyffredinol 35 – 74 (Gwynedd, 80%, Bro Morgannwg, 74%, a Sir

Benfro, 74%). Mae Gwynedd a Sir Benfro yn nodi bod niferoedd uchel o ymatebwyr yn gweithio ym maes Twristiaeth (41% a 44% yn y drefn honno) sy'n uwch o lawer na'r cyfartaledd cenedlaethol o 11%. Felly, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau gan ei fod yn awgrymu y gallai fod rhywfaint o ragfarn yn y canfyddiadau.

### Yr holiadur

Roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg yn defnyddio dangosyddion safonol a chwestiynau demograffig-gymdeithasol fel bod modd segmentu'r canlyniadau, yn ogystal â deall dylanwad newidynnau penodol ar y canfyddiadau o ran Twristiaeth (Galwedigaeth sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, oed, galwedigaeth, man preswylio, ac ati).

Er mwyn ei gwneud yn hawdd i gymryd rhan, defnyddiwyd holiadur ar-lein a oedd yn gweithio ar liniaduron, tabledi a ffonau clyfar ac a oedd yn para oddeutu 6 munud er mwyn lleihau cyfraddau gadael cyn gorffen.

### Cyfyngiadau

Mae'r cyfyngiadau'n cynnwys rhagfarnau posibl yn y sampl (a drafodir isod). Ar ben hynny, roedd amseriad yr arolwg (a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref 2023) yn golygu mai dim ond cipolwg ar y safbwyntiau a gafwyd ac roedd hefyd y tu allan i dymor prysuraf yr haf. Felly gallai rhai agweddau ar effaith Twristiaeth fod wedi cael eu tan-adrodd. Mae cyfyngiadau daearyddol hefyd i'r graddau fod Gwynedd, Sir Benfro a Bro Morgannwg yn gynrychiolwyr da o'r gwahanol gynhyrchion Twristiaeth ac yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr i Gymru ond nid yw'n hollgynhwysfawr, felly gallai ehangu nifer yr Awdurdodau Lleol sy'n cymryd rhan mewn arolygon yn y dyfodol arwain at ganfyddiadau gwahanol.

Hefyd, rhoddwyd y dasg o hyrwyddo'r arolwg i'r Awdurdodau Lleol oedd yn cymryd rhan yn y peilot, gan gynnwys i grwpiau cymunedol oedd â diddordeb – yn achos Gwynedd mae hyn hefyd yn cynnwys grwpiau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n ymwneud â'r nifer fawr o ail gartrefi yn yr ardal. Er bod hyn yn beth cadarnhaol o ran cynyddu nifer y cyfranogwyr, gallai hefyd fod wedi ystumio'r canlyniad ychydig gan fod yr arolwg wedi cael ei gyflwyno i grwpiau a oedd eisoes yn dueddol o fod â theimladau cryf am yr economi Twristiaeth.

Gallai fersiynau o'r ymchwil hwn yn y dyfodol ddefnyddio panel defnyddwyr sy'n gynrychioliadol o'r wlad, neu roi cyfnod hirach ar gyfer cynnal yr arolwg er mwyn ehangu cyrhaeddiad yr arolwg ar draws poblogaethau lleol.

### Manteision yr ymchwil hon

Bwriad y prosiect peilot hwn oedd asesu pa mor ymarferol yw mesur agweddau preswylwyr tuag at Dwristiaeth ar draws nifer o wahanol ddimensiynau. Mae wedi llenwi bwlch allweddol yn y dystiolaeth i ddechrau monitro teimladau preswylwyr tuag at Dwristiaeth, ac yn ein hymdrechion parhaus i wella Twristiaeth er lles Cymru.

Er y dylid edrych ar yr holl dystiolaeth a gyflwynir yma o safbwynt astudiaeth beilot, ac y dylid bod yn ofalus wrth ei dehongli oherwydd hynny, mae canfyddiadau diddorol yn yr ymchwil hon y gellid ymhelaethu arnynt a'u harchwilio ymhellach mewn fersiynau yn y dyfodol. Ar ben hynny, mae llawer o'r ffyrdd o wella'r economi Twristiaeth a phrofiad preswylwyr yn nwylo'r Awdurdodau Lleol a, pan fo ymatebwyr wedi awgrymu camau gweithredu posibl, mae'r rhain wedi bod yn ddefnyddiol ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau ar lefel Awdurdodau Lleol.

Fe wnaethom ddewis dull recriwtio a oedd yn dibynnu ar gael gwybodaeth drwy siarad ag eraill a'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â rhannu â grwpiau penodol a oedd yn fodlon lledaenu'r neges trwy eu rhwydweithiau eu hunain.

Llwyddodd strategaeth recriwtio organig o'r fath i gyrraedd nifer sylweddol o unigolion o fewn cyfnod cymharol fyr. Mae'r math hwn o ymateb yn tystio i barodrwydd poblogaethau i ymateb i'r arolygon hyn, ac mae hefyd yn awgrymu bod dulliau rhad o gasglu gwybodaeth gan ymatebwyr yn bosibl ac yn hygyrch.

Yn ail, un o'r manteision a nodwyd oedd y gallu i gasglu data meintiol – er enghraifft, pwysigrwydd gwahanol ffactorau sy'n ymwneud â Thwristiaeth yn eu hardal ac o ganlyniad roeddem yn gallu pennu pa ffactorau sydd bwysicaf a rhwng lleoliadau. Yn ogystal, mae data ansoddol ar ffurf cwestiynau ymateb agored yn tynnu sylw at themâu cyffredin ar draws lleoliadau ond hefyd yn nodi pwyntiau o wahaniaeth sy'n awgrymu y tybir bod Twristiaeth yn cael effaith wahanol mewn gwahanol gymunedau.

Yn olaf, llwyddodd yr arolwg i gynhyrchu cyfres o awgrymiadau ymarferol y gellid eu rhoi ar waith ar lefel leol a chenedlaethol, er enghraifft roedd mwyafrif yr ymatebwyr ym mhob ardal eisiau chwarae mwy o ran yn y broses gwneud penderfyniadau ynghylch polisi Twristiaeth. Gellid ymhelaethu mwy ar yr wybodaeth hon a'i phrofi ymhellach mewn fersiynau o'r ymchwil yn y dyfodol neu mewn prosiectau ar wahân, ond gall y partïon perthnasol hefyd weithredu arni i ddod â chynrychiolwyr o'r gymuned at ei gilydd i drafod polisi Twristiaeth lleol er mwyn deall effaith bosibl y penderfyniadau hynny yn well. Gallai hyn arbed amser, ymdrech ac arian yn y pen draw.


### Crynodeb o’r canfyddiadau

## Gwynedd

### Dangosyddion allweddol

Roedd gan ymatebwyr o Wynedd sgôr net o 47% yng nghyswllt teimladau cadarnhaol yn erbyn teimladau negyddol tuag at Dwristiaeth (swm yr affeithioldeb cadarnhaol (66%) gyda’r affeithioldeb negyddol [-19%]).

**Ffigur 1. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol yng Ngwynedd**





Roedd 14% o’r ymatebwyr a holwyd yn gwrthwynebu Twristiaeth a’i dwf, ac roedd 57% yn cefnogi twf parhaus y diwydiant yng Ngwynedd. Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o gredu nad oedd polisi Twristiaeth yn ystyried eu bywydau nhw.

**Agweddau'r ymatebwyr**

Mae ymatebwyr o Wynedd yn ymfalchïo'n fawr yn eu hardal leol (88%) ac, at ei gilydd, yn frwd dros ymwelwyr yn teithio o bellteroedd mawr i gael profiad o'u cyrchfan. Gan mwyaf, mae'r gymuned yn barod i dderbyn twristiaid (81%) ond mae llai o bobl (53%) yn gefnogol i Letyau Gosod Tymor Byr a dim ond 39% sy'n cytuno bod polisi Twristiaeth yn ystyried effeithiau Twristiaeth ar eu bywydau.

## Ffigur 2. Agweddau ymatebwyr tuag at Dwristiaeth yng Ngwynedd





**Sylwer**: Wedi'u trefnu ar sail y gyfran fwyaf sy'n cytuno â phob datganiad (Cytuno'n gryf + Tueddu i gytuno).

**Lletyau gosod tymor byr**

Mae llawer o ymatebwyr o Wynedd yn cydnabod rôl Llety Gosod Tymor Byr o ran denu ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn (52%) ac o ran hyrwyddo eu hardal (43%), mae llai o ymatebwyr yn nodi cyfoethogi diwylliannol a rhyngweithio â phobl o bob cwr o'r byd (26%). Ar y llaw arall, mae pryderon amlwg am y sgil-effeithiau negyddol o ran cael tai yn lleol, gyda rhai cymdogaethau naill ai allan o gyrraedd oherwydd prisiau tai (41%) neu oherwydd nad oes rhai ar gael (37%).


**Ffigur 3. Siart i ddangos effaith dybiedig lletyau gosod tymor byr yng Ngwynedd**



**Awgrymiadau**

Mae ymatebwyr yng Ngwynedd yn barod i fynegi awydd cryf i chwarae mwy o ran yn y gwaith o hyrwyddo mentrau Twristiaeth lleol, yn ogystal â chael mwy o dryloywder ynghylch y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud (37% o'r ymatebwyr yn awgrymu hyn). Roedd rhagor o drafod ynghylch manteision Twristiaeth (26%) a galw am fwy o fuddsoddi mewn seilwaith (23%) hefyd yn elfennau amlwg iawn. Credai 23% hefyd y byddai llai o ffocws ar gosbi perchnogion ail dai a mwy o ffocws ar gyllid lleol er mwyn cynyddu entrepreneuriaeth a chyflogaeth yn beth da.


**Ffigur 4. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yng Ngwynedd**



**Effaith twristiaeth**

Mae cytundeb ynghylch rôl gadarnhaol Twristiaeth yn yr economi leol (82% o'r ymatebwyr) a chyflogaeth (76%), yn ogystal â chefnogi'r sector Treftadaeth (65%) a gweithgareddau hamdden y gall ymatebwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd eu gwerthfawrogi (69%). Mae 31% yn credu ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a 30% yn credu ei fod yn cael effaith negyddol.

## Ffigur 5. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau yng Ngwynedd





**Sylwer**: Wedi'u trefnu ar sail y gyfran uchaf o agweddau "Cadarnhaol" ar gyfer pob datganiad.

## Y cymraeg

O ran effaith Twristiaeth ar y Gymraeg, mae 70% yn credu bod Twristiaeth yn gyfle da i hyrwyddo natur unigryw Cymru ac mae 50% yn credu bod creu swyddi ym maes Twristiaeth yn cyfrannu at gadw ymatebwyr lleol yn eu cymunedau, gan gryfhau'r Gymraeg. Mae 40% yn credu y gall colli tai fforddiadwy o ganlyniad i Dwristiaeth gael effaith negyddol ar yr iaith.

## Ffigur 6. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar y Gymraeg yng Ngwynedd





**Sylwer**: Wedi'u trefnu ar sail y gyfran fwyaf sy'n cytuno â phob datganiad (Cytuno'n gryf + Tueddu i gytuno).

**Canlyniadau twristiaeth**

Mae tua hanner yr ymatebwyr o Wynedd yn cael problemau gyda Thwristiaeth (49%). Dim ond ar adegau penodol o'r flwyddyn y mae'r mwyafrif o'r rhai sy'n datgan hyn yn gwneud hynny (36%). Heriau o ran trafnidiaeth, fel parcio (77%) a thraffig (76%), yw'r canlyniadau negyddol sy'n cael eu nodi amlaf. Mae canlyniadau negyddol fel sŵn (32%), gormod o bobl (50%), a diffyg parch gan ymwelwyr (46%) yn faterion sy'n cael eu codi i'r un graddau ag yn yr ardaloedd peilot eraill oedd yn rhan o'r arolwg. Yn olaf, mae bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr yn sôn am broblemau'n ymwneud â glendid a rheoli gwastraff (63%), er eu bod yn gwneud hynny i raddau llai o'i gymharu â chyfartaledd yr ardaloedd peilot eraill.

## Ffigur 7. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion yng Ngwynedd





**Sylfaen**: Trigolion â chanfyddiad o **ganlyniadau negyddol ar rai adegau o'r flwyddyn o leiaf** (N = 365 o ymatebwyr)

**Ymwelwyr**

Yn fras, mae ymatebwyr eisiau gweld mwy o bob math o ymwelydd â Chymru, gydag Ymwelwyr Rhyngwladol yn cael y sgôr uchaf (75% o'r ymatebwyr) ac yna ymwelwyr busnes (66%). Mae digwyddiadau'n cael eu hystyried yn ffordd gadarnhaol o annog mwy o ymwelwyr, gyda 61% yn dweud eu bod wedi helpu Twristiaeth i dyfu. Er hynny, mae 18% yn credu eu bod yn cael effaith negyddol ar y seilwaith a'r amgylchedd.


## Ffigur 8. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr yng Ngwynedd eisiau gweld mwy, llai neu'r un nifer ohonynt



**Digwyddiadau**

Mae ymatebwyr o Wynedd yn gweld amrywiaeth o effeithiau o ddigwyddiadau, mae 61% yn dweud eu bod yn helpu twristiaeth i dyfu, ac mae 39% yn honni eu bod yn cael mwy o ymwelwyr rhyngwladol o ganlyniad, ac mae 38% yn honni bod y cynnig o ran gweithgareddau hamdden ac adloniant wedi cynyddu o ganlyniad. Ar yr ochr negyddol, dywed 18% eu bod yn denu gormod o ymwelwyr, eu bod yn achosi difrod i seilwaith lleol, a'u bod yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd a natur. Mae 13% arall yn honni bod y mathau o ymwelwyr sy'n dod i'r digwyddiadau yn creu llawer o sŵn a'u bod yn amharchus.

## Ffigur 9. Siart i ddangos effaith dybiedig digwyddiadau yng Ngwynedd




### Sir Benfro

### Dangosyddion allweddol

Roedd gan ymatebwyr o Sir Benfro sgôr net cyffredinol o 56% o ran Twristiaeth (68% yn gadarnhaol gyda -12% yn negyddol). Roedd 9% o'r ymatebwyr yn gwrthwynebu Twristiaeth, ac mae 56% yn cefnogi'r twf parhaus. Ar gyfartaledd, roedd ymatebwyr yn fwy tebygol o deimlo nad oedd polisi Twristiaeth yn ystyried yr effaith ar eu bywydau nhw.


**Ffigur 10. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol yn Sir Benfro**



**Agweddau'r ymatebwyr**

Mae 84% o'r ymatebwyr yn Sir Benfro yn ymfalchïo yn y ffaith bod twristiaid yn dewis ymweld â'u hardal ac yn croesawu twristiaid i raddau helaeth (81%). Mae 75% o'r ymatebwyr hefyd yn cefnogi ymdrechion ychwanegol i hyrwyddo'r rhanbarth er mwyn denu mwy o ymwelwyr.  Fodd bynnag, dim ond 42% sy'n cefnogi rhentu tymor byr, a dim ond 36% sy'n credu bod yr effaith y mae Twristiaeth yn ei chael ar eu bywydau yn cael ei hystyried fel rhan o bolisi Twristiaeth.

## Ffigur 11. Agweddau ymatebwyr yn Sir Benfro tuag at Dwristiaeth yn eu hardal





**Sylwer**: Wedi'u trefnu ar sail y gyfran fwyaf sy'n cytuno â phob datganiad (Cytuno'n gryf + Tueddu i gytuno).

**Awgrymiadau**

Yr awgrym mwyaf poblogaidd (27%) oedd ymgysylltu ag ymatebwyr yng nghyswllt polisi Twristiaeth ac yna gwella seilwaith lleol (24%). Mae 20% hefyd yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i ymatebwyr o Sir Benfro dros ymwelwyr yng nghyswllt pethau fel parcio a thai. Mewn cyferbyniad, dim ond 4% sy'n cefnogi cyfathrebu i ddenu rhagor o ymwelwyr a dim ond 5% sy'n credu y dylid cael mwy o gyfathrebu ynglŷn â manteision Twristiaeth.


## Ffigur 12. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yn Sir Benfro



### Effaith twristiaeth

Mae cytundeb ynghylch rôl gadarnhaol Twristiaeth yn yr economi leol (86%) a chyflogaeth (77%), yn ogystal â manteision Twristiaeth i'r sector Treftadaeth (80%) a chyfleusterau hamdden ac adloniant (68%). Fodd bynnag, mae 40% yn credu ei bod wedi cael effaith negyddol ar lendid mannau cyhoeddus, mae 36% yn credu ei bod wedi bod yn niweidiol o ran diogelu'r amgylchedd, ac mae 24% yn credu ei fod wedi erydu bywyd cymunedol. Mae effaith Twristiaeth ar seilwaith wedi'i rhannu'n gyfartal rhwng dylanwad cadarnhaol a negyddol (36%).

## Ffigur 13. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau yn Sir Benfro





**Sylwer**: Wedi'u trefnu ar sail y gyfran uchaf o agweddau "Cadarnhaol" ar gyfer pob datganiad.

### Canlyniadau twristiaeth

Mae 65% o'r ymatebwyr yn profi canlyniadau negyddol Twristiaeth ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn, er mai dim ond 9% sy'n credu bod hyn yn broblem drwy gydol y flwyddyn. Parcio (84%) a phroblemau traffig mwy cyffredinol (83%) yw rhai o'r prif bryderon. Yn dynn ar sodlau'r rhain (63%) mae colli tai. Mae gormod o bobl a glendid (61%) hefyd yn broblemau, ond mae 27% yn nodi pryderon am ddiogelwch ac ymddygiad amhriodol, ac mae sŵn sy'n tarfu yn cael ei nodi gan 28%.

## Ffigur 14. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion yn Sir Benfro





**Sylfaen**: Trigolion â chanfyddiad o **ganlyniadau negyddol ar rai adegau o'r flwyddyn o leiaf** (N = 297 o ymatebwyr)

### Ymwelwyr

Cynnydd mewn ymwelwyr rhyngwladol (65%) yw'r hyn a ddymunir fwyaf yng nghyswllt yr holl is-grwpiau ymwelwyr, gydag ymwelwyr o'r DU ac ymwelwyr busnes yn ail (54% yr un). Mae 47% yn cefnogi cael mwy o bobl i ddod i ddigwyddiadau.

## Ffigur 15. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr am weld mwy, llai neu'r un nifer ohonynt yn Sir Benfro




**Bro Morgannwg**

**Dangosyddion allweddol**

Roedd gan ymatebwyr sgôr gyffredinol o 46% o ran eu teimladau tuag at Dwristiaeth (60% yn gadarnhaol, 14% yn negyddol), gydag 8% yn gwrthwynebu mwy o dwf mewn Twristiaeth yn eu hardal. Mae 63% yn cefnogi twf mewn Twristiaeth, ac mae gan y mwyafrif ddiddordeb mewn chwarae mwy o ran ym mhroses gwneud penderfyniadau polisi Twristiaeth.


## Ffigur 16. Mynegai Teimladau tuag at Dwristiaeth yn Gyffredinol ym Mro Morgannwg



**Agweddau'r ymatebwyr**

Mae 83% o'r ymatebwyr yn falch o'u hardal, ac mae 79% yn cefnogi mwy o dwf yn y cynnig o ran Twristiaeth. Mae gan 73% ddiddordeb mewn ymwneud mwy â datblygu'r cynnig o ran Twristiaeth, ac mae'r un nifer yn gadarnhaol ac yn gyfeillgar tuag at dwristiaid. Mae cyfrannau tebyg yn hoffi a ddim yn hoffi Llety Gosod Tymor Byr (45% yn gadarnhaol, 42% yn negyddol).


## Ffigur 17. Agweddau ymatebwyr o Fro Morgannwg tuag at Dwristiaeth yn eu hardal



### Llety gosod tymor byr

Mae 40% o'r ymatebwyr yn dweud bod cynnydd wedi bod mewn prisiau tai o ganlyniad i fwy o Letyau Gosod Tymor Byr, ac mae 29% yn dweud bod hyn wedi cyfrannu at ledaenu Twristiaeth drwy gydol y flwyddyn, yn hytrach nag yn ystod misoedd yr haf yn unig. Yn bwysig, mae 23% yn credu bod eu hymdeimlad o gymuned wedi dirywio, ac mae 16% yn credu bod Lletyau Gosod Tymor Byr yn peri iddynt golli'r hyn sy'n gwneud eu hardal yn arbennig.


## Ffigur 18. Siart i ddangos effaith lletyau gosod tymor byr ym Mro Morgannwg



**Awgrymiadau**

Mae 48% o’r ymatebwyr yn awgrymu y dylai buddsoddi mewn seilwaith fod yn un o nodau allweddol polisi Twristiaeth, gyda 35% yn ystyried ymwneud mwy â datblygu polisi Twristiaeth. Ychydig iawn sydd am weld manteision Twristiaeth yn cael eu cyfleu iddynt fwy (4%) a dim ond 5% sydd â diddordeb mewn cael eu blaenoriaethu dros ymwelwyr yng nghyswllt defnyddio seilwaith cyhoeddus (e.e. parcio).


## Ffigur 19. Siart i ddangos themâu cyffredin a nodwyd gan ymatebwyr yn Sir Benfro



### Effaith twristiaeth

Ystyrir mai'r Economi Leol a chyflogaeth (74% a 62% yn y drefn honno) yw prif effaith Twristiaeth. Mae cyfrannau tebyg yn ystyried bod Twristiaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y sector treftadaeth (50%) ac ar sut mae'r ardal yn edrych ac yn teimlo (46%) ac ar y cynnig o ran gweithgareddau hamdden ac adloniant (45%), a bywiogrwydd y gymuned (43%). Ar y llaw arall, mae 48% yn dweud bod twristiaeth yn cael effaith negyddol ar lendid mannau cyhoeddus, ac mae 44% yn dweud ei bod yn cael effaith negyddol ar seilwaith.

## Ffigur 20. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar nifer o ffactorau ym Mro Morgannwg





**Sylwer:** Wedi'u trefnu ar sail y gyfran uchaf o agweddau "Cadarnhaol" ar gyfer pob datganiad.

## Y Gymraeg

Mae 56% o’r ymatebwyr yn credu bod Twristiaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar yr ymwybyddiaeth ehangach o’r Gymraeg a Diwylliant Cymru. Mae cyfrannau tebyg yn cytuno (35%) ac yn anghytuno (40%) bod presenoldeb pobl ddi-Gymraeg yn eu hardal yn lleihau’r defnydd o’r iaith. Fodd bynnag, mae’r mwyafrif yn anghytuno (56%) bod enwau lleoedd Cymraeg gwreiddiol yn cael eu newid er mwyn ymwelwyr yn yr ardal. Yn olaf, mae hanner yr ymatebwyr yn anghytuno bod y Gymraeg yn cael ei niweidio oherwydd colli tai fforddiadwy i bobl leol, gyda 34% heb unrhyw farn.


## Ffigur 21. Siart i ddangos effaith dybiedig twristiaeth ar y Gymraeg ym Mro Morgannwg



**Canlyniadau twristiaeth**

Mae 57% o'r ymatebwyr yn teimlo bod Twristiaeth yn effeithio arnynt, gyda Thwristiaeth yn effeithio ar 7% drwy gydol y flwyddyn. Problemau parcio a thraffig (y ddau yn 84%) yw'r pryderon mwyaf, ac yna problemau'n ymwneud â glendid a rheoli gwastraff (74%). Yn yr un modd, nodir canlyniadau negyddol, fel problemau diogelwch neu ymddygiad amharchus (48%), gormod o bobl (45%), a sŵn (36%). Yn ddiddorol, mae materion yn ymwneud â cholli dilysrwydd a hunaniaeth ddiwylliannol (15%), tai sydd ar gael (14%), cynnydd mewn prisiau tai (13%), a chynnydd mewn costau byw (8%) yn cael eu crybwyll yn llawer llai aml.

## Ffigur 22. Siart i ddangos canlyniadau negyddol tybiedig twristiaeth mewn perthynas â nifer o faterion ym Mro Morgannwg





**Sylfaen**: Trigolion â chanfyddiad o **ganlyniadau negyddol ar rai adegau o'r flwyddyn o leiaf** (N = 380 o ymatebwyr)

### Ymwelwyr

Mae’r mwyafrif o’r ymatebwyr am weld cynnydd ym mhob math o ymwelydd, ond ymwelwyr rhyngwladol (85%), ymwelwyr o’r DU (65%), ac ymwelwyr dros nos (64%) a geisir fwyaf, ond roedd y categorïau eraill (ymwelwyr o Gymru, ymwelwyr busnes, ac ymwelwyr dydd) i gyd yn sgorio 57% sy’n awgrymu bod awydd i weld cynnydd cyffredinol yn nifer y twristiaid.


## Ffigur 23. Siart i ddangos y gwahanol fathau o ymwelwyr y mae ymatebwyr am weld mwy, llai neu’r un nifer ohonynt ym Mro Morgannwg



**Digwyddiadau**

Mae 51% yn credu bod digwyddiadau'n helpu i gynyddu Twristiaeth, ond mae 39% yn dweud eu bod yn difrodi seilwaith cyhoeddus ac mae 26% yn dweud eu bod yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Mae 27% yn cytuno eu bod yn cynyddu'r gweithgareddau hamdden sy'n cael eu cynnig, ond mae 23% yn credu eu bod yn denu gormod o ymwelwyr ar yr un pryd.

## Ffigur 24. Siart i ddangos effaith dybiedig digwyddiadau ym Mro Morgannwg



**Cymariaethau**

**Dangosyddion allweddol**

Sir Benfro a sgoriodd y sgôr net uchaf ar gyfer Twristiaeth, sef 56%, gyda Gwynedd yn cael sgôr o 46%, a Bro Morgannwg yn cael sgôr o 45%. Mae hyn yn awgrymu, ar y cyfan, bod yr ymatebwyr o'r ddau Awdurdod Lleol olaf yn credu bod mwy o elfennau negyddol nag elfennau cadarnhaol yn gysylltiedig â Thwristiaeth yn eu hardal ar hyn o bryd.

Ymatebwyr o Wynedd oedd fwyaf gwrthwynebus i Dwristiaeth, sef 14%, ac yna Sir Benfro, sef 9% ac wedyn Bro Morgannwg, sef 8%. Yn ddiddorol, ymatebwyr o Fro Morgannwg yw'r mwyaf tebygol o gefnogi mwy o dwf mewn Twristiaeth, sef 63%, a nhw hefyd oedd wedi nodi'r nifer leiaf o ymatebwyr oedd yn gweithio ym maes Twristiaeth (12%), yna Gwynedd, sef 57% (gyda 41% o'r ymatebwyr yn gweithio ym maes Twristiaeth), ac yna Sir Benfro, sef 56% (gyda 44% o'r ymatebwyr yn gweithio ym maes Twristiaeth). Mae hyn yn awgrymu, er gwaethaf y canfyddiad negyddol braidd o Dwristiaeth ym Mro Morgannwg a Gwynedd gyda'i gilydd, ar draws y tri lleoliad, bod awydd cyffredinol i weld Twristiaeth yn tyfu.

**Agweddau'r ymatebwyr**

Mae ymdeimlad cryf o falchder yn y tair ardal (Gwynedd, 88%; Sir Benfro, 84%; a Bro Morgannwg, 83%). Yn yr un modd, mae'r tair ardal yn cefnogi mwy o dwf mewn Twristiaeth drwy farchnata eu hardal leol yn benodol (Gwynedd, 78%; Sir Benfro; 75%; a Bro Morgannwg, 79%). Mae un gwahaniaeth. At ei gilydd, mae ymatebwyr o Wynedd yn gadarnhaol ynghylch datblygu Llety Gosod Tymor Byr (53%) ond, ar y cyfan, mae Sir Benfro (42%) a Bro Morgannwg (45%) yn fwy negyddol ynghylch hyn.

**Llety gosod tymor byr**

Dewisodd Sir Benfro beidio â gofyn i'w hymatebwyr am Letyau Gosod Tymor Byr yn fwy manwl, fodd bynnag, mae rhai gwahaniaethau barn wedi dod i'r amlwg rhwng Gwynedd a Bro Morgannwg. Yng nghyswllt ymatebwyr o Wynedd, y cynnydd mewn ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn sy'n cael ei weld fel y canlyniad mwyaf (52%) ond o ran ymatebwyr o Fro Morgannwg, y cynnydd mewn prisiau tai (40%) sy'n cael ei ystyried y canlyniad mwyaf. Mae'r ddwy ardal (30% ar gyfer Gwynedd, 23% ar gyfer Bro Morgannwg) yn credu bod yr ymdeimlad o gymuned wedi dirywio. Yng Ngwynedd, y pryder sy'n cael ei nodi leiaf yw colli'r hyn sy'n eu gwneud yn arbennig, sef 21%, ond ym Mro Morgannwg yr ardal yn dod yn fwy rhyngwladol ac amlddiwylliannol (12%) yw'r pryder lleiaf.

**Awgrymiadau**

Roedd llawer o gytundeb ymysg yr ymatebwyr yng nghyswllt awgrymiadau, gyda 37% o ymatebwyr o Wynedd, 35% o ymatebwyr o Fro Morgannwg, a 27% o ymatebwyr o Sir Benfro i gyd yn gofyn am fwy o ymgysylltu o ran datblygu polisi Twristiaeth. Roedd

gwelliannau yn y ddarpariaeth o seilwaith lleol hefyd yn amlwg iawn ar draws pob ardal (Gwynedd, 23%; Sir Benfro, 24%; Bro Morgannwg, 48%). Mae'n bwysig nodi bod yr atebion hyn yn ddigymell, sy'n awgrymu bod lefel y teimladau ymysg yr ymatebwyr yn hyn o beth yn uchel.

**Effaith twristiaeth**

Roedd yr economi leol ar y brig ar draws y tair ardal fel elfen yr oedd Twristiaeth wedi cael dylanwad arni (Gwynedd, 82%; Sir Benfro, 86%; Bro Morgannwg, 74%) Yn yr un modd, mae cyflogaeth yn cael lle amlwg hefyd (Gwynedd, 76%; Sir Benfro, 77%, a Bro Morgannwg, 62%). Mae cytundeb cyffredinol hefyd ynghylch effeithiau negyddol, gyda glendid mannau cyhoeddus yn sgorio'n isel ar draws y tair ardal gyda 38% yng Ngwynedd yn credu bod Twristiaeth yn cael effaith negyddol yn hyn o beth, 40% yn Sir Benfro, a 48% ym Mro Morgannwg.

**Y Gymraeg**

Dewisodd Sir Benfro beidio â holi am y Gymraeg, ond daeth rhai gwahaniaethau diddorol i'r amlwg rhwng Gwynedd a Bro Morgannwg. Yng Ngwynedd, mae 70% o'r ymatebwyr yn credu bod Twristiaeth yn gyfrwng da i hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant, ond dim ond 56% o'r ymatebwyr ym Mro Morgannwg sy'n cytuno â hyn. Fel y nodwyd yn yr adroddiadau, nid oedd gan gyfran lawer uwch o ymatebwyr ym Mro Morgannwg farn ar y cwestiynau ynghylch y Gymraeg (rhwng 16% a 40%), ac yng Ngwynedd dim ond 4% - 12% oedd yn dibynnu ar y cwestiwn.

**Canlyniadau twristiaeth**

Dywed 49% o ymatebwyr o Wynedd eu bod yn gweld canlyniadau negyddol Twristiaeth ar ryw adeg o leiaf yn ystod y flwyddyn arferol, yn Sir Benfro mae'r ffigur hwn yn 65%, ac ym Mro Morgannwg mae'n 64%. Problemau'n ymwneud â Pharcio a Thraffig yw'r problemau sy'n cael eu nodi fwyaf gan ymatebwyr (Gwynedd, 77% a 76% yn y drefn honno; Sir Benfro, 84% ac 83% yn y drefn honno; a Bro Morgannwg, 84% ac 84% yn y drefn honno). Mae un gwahaniaeth diddorol, sef y pwynt ynghylch colli tai i ail gartrefi, ar gyfer Gwynedd a Sir Benfro, mae'r ffactor hwn yn sgorio'n uchel (64% a 63% yn y drefn honno), a dim ond 14% ym Mro Morgannwg.

**Is-grwpiau ymwelwyr**

Mae rhywfaint o amrywiaeth o ran yr is-grwpiau ymwelwyr y byddai ddewisach gan y tair ardal, ond gweld twf yn nifer yr ymwelwyr rhyngwladol fyddai orau gan yr holl ardaloedd. Yn yr un modd, roedd ymwelwyr busnes hefyd yn cael eu gweld fel targed twf cadarnhaol ar draws y tair ardal. Sir Benfro oedd yr unig ardal i nodi llai na 50% o awydd cadarnhaol am fwy o unrhyw is-grŵp unigol (pobl oedd yn dod i ddigwyddiad, 47%).

**Digwyddiadau**

Ni ofynnodd Sir Benfro am ganlyniadau digwyddiadau, fodd bynnag, wrth gymharu Gwynedd a Bro Morgannwg mae rhai pwyntiau diddorol yn codi: mae'r ddwy ardal (Gwynedd, 61% a Bro Morgannwg, 51%) yn credu bod digwyddiadau wedi helpu'r economi Twristiaeth i dyfu, ond er mai dim ond 18% o'r ymatebwyr o Wynedd sy'n credu bod hyn wedi difrodi'r seilwaith lleol, mae 39% o'r ymatebwyr ym Mro Morgannwg yn credu ei fod wedi gwneud hynny. Mae 38% o ymatebwyr Gwynedd yn credu bod digwyddiadau wedi cynyddu'r arlwy hamdden ac adloniant yn yr ardal, ond 27% o ymatebwyr Bro Morgannwg sy'n dweud yr un peth. Yn olaf, mae'r ddwy ardal yn nodi lefel yr un mor isel ar gyfer digwyddiadau yn dod â gormod o bobl ar yr un pryd (Gwynedd, 18%; Bro Morgannwg, 23%).